Polisïau

Cyfrinachedd data
Mae Cath Allen Associates wedi'i gofrestru o dan y Ddeddf Diogelu Data, a bydd yr holl ddata personol yn cael ei brosesu yn unol â gofynion y Ddeddf.

Bydd yr holl ddata electronig yn cael ei gadw hefyd ar yrriant ar wahân a'i gadw'n ddiogel.

Mae Cath Allen Associates bob amser yn parchu cyfrinachedd y wybodaeth a ddatgelir yn ystod unrhyw brosiect yn ogystal â chynnwys adroddiadau.

Gweithio'n ddwyieithog
Gall Cath Allen Associates weithio gyda chi yn Gymraeg neu'n Saesneg, a gallwn ddarparu'r sesiynau a'r gweithdai yn y naill iaith neu'r llall.

Iechyd a Diogelwch
Fel sefydliad gyda llai na phump o gyflogwyr, nid yw Cath Allen Associates wedi'i rwymo'n gyfreithiol i gael polisi iechyd a diogelwch ac asesiad risg ysgrifenedig, fel y nodir gan y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch.

Cyfle Cyfartal
Mae Cath Allen Associates wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag fo'u lliw, hil, crefydd, rhyw, rhywioldeb, anabledd neu oedran. Mae'r cwmni yn bwriadu creu a chynnal amgylchedd gwaith cynhwysol, ac yn ymwybodol, fel cwmni bach, bod disgwyl i ni annog ac hyrwyddo cyflenwyr i gadw at bolisïau cyfle cyfartal. Mae'r cwmni wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel drwy onestrwydd, didwylledd a pharch i'r cwsmeriaid a'r cyflenwyr.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol
Mae Cath Allen Associates yn rhoi ystyriaeth i effeithiau amgylcheddol ei ddeunydd (fel pecynnau, deunydd print ayyb.), gan gynnwys defnyddio, cludo a chael gwared ar ddeunyddiau. Rydym wedi ymrwymo i helpu i leihau effeithiau niweidiol ein deunydd - yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae CAA yn ystyried:

Lleihau'r deunyddiau sydd eu hangen
Defnyddio papur a deunyddiau sydd wedi'u hailgylchu lle bo'n bosib
Os gall y deunydd fod yn aml-bwrpas
Os oes modd ailgylchu'r deunydd neu os yw'r deunydd yn gallu pydru
Os oes modd defnyddio fersiwn digidol, yn hytrach na fersiwn print